

Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Elin Davies (Saron) a gafodd lawdriniaeth yn ystod yr wythnos, a Mared Roberts (Llanefydd) a dreuliodd ychydig ddyddiau yn Ysbyty Manceinion yn dilyn damwain yno. Da clywed fod y ddwy yn gwella, fel ag y mae Amy Evans (Llanfair) sy'n gobeithio cael dod adre o'r ysbyty yn y dyddiau nesaf. Parhawn i gofio am y rhai hynny o'n plith sy'n aros triniaeth ac eraill nad ydynt cystal eu hiechyd ar hyn o bryd. Cyflwynwn y cleifion oll i ofal yr Arglwydd gan weddio y bydd Duw yn eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni.
- Cofiwn hefyd am rai sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ddiweddar, gan hyderu y cânt adnabod nodedd yr Arglwydd.
- Bu'n rhaid i ddwy o'n haelodau sy'n cael gofal yng Nghartref Yr Hen Ddeondy symud oherwydd y llifogydd i gartrefi eraill dros dro. Mae Mrs Menna Owen wedi mynd i Gartref 'The Meadows' yn y Waen, Llanelwy, a Mrs Annie Griffiths yng Nghartref Dolwen yn Ninbych. Anfonwn ein cofion atynt ac yn yr un modd, ein ffrindiau eraill sydd mewn cartrefi gofal – Mr R. J. Davies (Llys Onnen); Mrs Morfydd Williams (Southern House); Mr Howell Jones (Bryn yr Eglwys); Mrs Mair Roberts (Yr Hen Ficerdy); Mrs Myra Hughes (Maes Elwy); Miss W J Roberts (Yr Hen Ddeondy); a Mrs Susannah Williams (Coed Môr). Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd gan ddiolch am y gofal y maent yn ei dderbyn.
- Llongyfarchiadau i Eirwyn a Kat Edwards (Groes) ar enedigaeth mab bach, Iorwerth Lloyd. Gweddiwn dros y teulu, ac ymunwn gyda hwy i roi diolch i Dduw am ei ddaioni yn eu hanes.

I ddod

- **Oedfa Garolau a Phlygain i'r Fro** nos Sul, Rhagfyr 16eg yn Llansannan am 6.00.
- **Oedfa Bore Nadolig i'r Fro** yng Nghapel y Groes am 9.30.
- **Taith gerdded** (ar y gwastad!) yn ardal Cefn Meiriadog bore lau, Rhagfyr 27ain. Pawb i gyfarfod ym maes parcio Capel Cefn Meiriadog am 10.30. Dewch â chinio hefo chi – bydd paned ar gael yn y Festri.
- **Swper Nadolig Adnabod** yn Festri Llansannan nos Wener, Rhagfyr 28ain am 7.30. Mwy o fanylion gan Mair (870632).
- **Oedfa i'r Fro** bore Sul, Rhagfyr 30ain am 10.00 – *Ileoliad i'w gadarnhau.*

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 2^{il} Rhagfyr 2012

Cysylltwch â Celfyn (550274) erbyn nos
Fawrth gydag unrhyw geisiadau gweddi,
os gwelwch yn dda.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da a chroeso i'r oedfaon heddiw. Dyrchafwn enw'r Iesu a diolchwn o galon iddo am ein caru a'n gwaredu. Gobeithio y cewch chi gyfle heddiw i dynnu sylw rhywun o'r newydd at fawredd a gogoniant yr Arglwydd Iesu, ei berson gogoneddus a'i waith rhyfeddol!

Ychydig a feddyllem ni y Sul diwethaf y byddai'r wythnos hon wedi bod yn un mor arw. Fe ddaeth y llifogydd mawr yn frawychus o sydyn ac yn nerthol iawn gan ddinistrio eiddo a boddi cartrefi cymaint o bobl yn y cylch. Rydym yn lled gyfarwydd â gweld y darluniau o lefydd eraill ar y newyddion ond profiad torcalonnus oedd gweld pentrefi a threfi cyfagos fel petaent wedi boddi dan y dyfroedd mwdlyd.

Gwn fod llawer ohonoch wedi bod yn helpu ac yn gweddio dros y rhai a effeithiwyd. Parhawn i wneud hynny heddiw gan gofio hefyd am y gwasanaethau brys, y gwasanaethau gofal, y Cynghorau a'r teuluoedd estynedig sydd yn ceisio dwyn cysur a gobaith i gymaint o bobl. Diolchwn hefyd am y cariad a'r gofal sy'n cael eu dangos ar eu gorau mewn argyfwng fel hyn a gobeithiwn y bydd trefn yn cael ei adfer yn fuan ac y bydd teuluoedd yn cael dychwelyd adre mor fuan ag sy'n bosibl.

Mae Salm 69 yn dod yn fyw iawn ar adegau fel hyn. Yn y salm mae'r salmydd yn gofyn am gael ei achub o'r llifogydd sy'n codi o'i amgylch. Mae'n dweud: "Gwared fi o'r llaid rhag imi suddo, achuber fi o'r mwd ac o'r dyfroedd dyfnion. Na fydded i'r llifogydd fy sgubo ymaith" (adnod 14 ac 15). Er mai sôn am ei brofiad ysbrydol y mae'r salmydd y mae'n ddarlun byw iawn o amgylchiadau nifer o drigolion y cylch yr wythnos yma.

Fe fydd angen amynedd a dyfalbarhad gyda'r gwaith o glirio'r llastr. Rwy'n cofio'r llifogydd yn Abergele yn y saithdegau yn dod i mewn i'n cartre ni yn Dundonald Avenue. Cofio'r mwd a'r arogl, a'r gwaith glanhau. Cydymdeimlwn â'r holl deuluoedd felly wrth iddynt geisio cael trefn eto ac adfer yr hyn a gollwyd.

Cafodd Capel Soar, Llanfair Talhaiarn a'r ddau dŷ capel eu heffeithio'n ddifrifol yn y llifogydd cryfion yno a gweddiwn y bydd ein cyd-aelodau yn Llanfair yn cael eu cynnal gan yr Arglwydd wrth iddynt drefnu pob peth angenrheidiol. Gweddiwn hefyd dros aelodau Tanyfron ar achlysur gwerthu adeilad yr hen gapel nos Lun diwethaf. Cam anodd ond angenrheidiol oedd hwn, a diolchwn i'r Arglwydd am ei law a fu dros y gwerthiant ac am iddo barhau i fendithio'r eglwys yno a'u grymuso ymhellach yn ei thystiolaeth er ei ogoniant.

Cofiwn felly am ein holl aelodau a'n cydnabod a'u cyflwyno i ofal yr Arglwydd a chysuron diddiwedd ei Ysbryd a'i Air.

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun • **Cyfarfod i Flaenoriaid yr Ofalaeth** yng Nghapel Llanefydd am 7.30.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher • **Adnabod Addoli** yn Festri Llansannan am 8.00. Cyn y cyfarfod, bwriedir recordio 4 emyn gyfoes, gan gychwyn am 6.30. Y prif leisydd fydd Ben Nuss ond mae croeso i unrhyw un ymuno fel côr cefndir.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.
- **Noson Grefftau a Nwyddau Nadolig** yn Festri Groes am 7.00.
- Gwener • Mae criw CIC yn mynd i'r **Noson Nadolig Ieuenctid** yng Ngholeg y Bala. Rhowch eich enw i Rhodri erbyn nos Fercher, os gwelwch yn dda. Bydd bws mini yn cychwyn o faes parcio'r capel yn Llansannan am 5.45 ac yn cyrraedd yn ôl am 9.15.
- Sadwrn • **Hwyl yr Ŵyl** i blant cynradd yng Ngholeg y Bala. Cysylltwch â'r Coleg i roi eich enw (01678 520565).
- **Codi'r Faner** yng Nghapel Bethel, Yr Wyddgrug o 10.00 – 4.00. Diwrnod yw hwn ar gyfer aelodau eglwysi i'n galluogi i fod ynglŷn â gwaith Duw heddiw. Bydd pedair sesiwn: Sylfeini'r ffydd; Cwestiynau Bywyd; Arwain Addoliad; ac Adeiladu'r eglwys trwy'r Rhaglen Ddatblygu. Arweinir y sesiynau gan Euros Wyn Jones a Geraint Tudur. Bydd cyfle i fynd i'r dre i nol cinio neu dewch â chinio hefo chi. Darperir paned yno. Croeso i bawb.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a chynhelir yr Ysgol Sul yno am 2.00. Oherwydd y difrod, ni fydd oedfa nac Ysgol Sul yn Llanfair y Sul yma. Bydd Cyngerdd dan olau cannyll yng nghwmni 'Enfys' yng Nghapel Cefn Meiriadog am 8.00. Oedolion: £6, plant £2. Tocynnau ar gael gan aelodau Capel Cefn Meiriadog.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn **Neuadd** Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa undebol Sul y Beibl am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mawrth Cinio'r Jangl yn y Festri am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi ym Mheniel a Saron am 10.00 ac Ysgol Sul yn y ddwy eglwys am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Mrs Enid Davies yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 a bydd Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.
- Llun Bydd Chwiorydd Cefn Berain yn cyfarfod am 7.00 pan fydd Mrs Dilys Hughes, Trefnant yn cyflwyno 'Myfyrdod ar y Nadolig'.
- Gwener Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau